## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Hadau Grawnfwydydd 1993, O.S. 1993/2005, (fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/1482, 1997/616 a 1999/1860) ("Rheoliadau 1993"). Deuant i rym ar 29 Tachwedd 2001 ac maent yn gymwys i Gymru yn unig.

Mae'r diwygiadau i Reoliadau 1993 yn peri bod Cyfarwyddebau canlynol y Cyngor, a ddiwygiodd gyfarwyddebau mewn perthynas â marchnata hadau a'r catalog cyffredin o amrywiadau o rywogaethau planhigion amaethyddol, yn effeithiol yng Nghymru:—

(a) 98/95/EC (OJ Rhif L25, 1.2.1999, t.1) mewn perthynas â chyfuno'r farchnad fewnol, adnoddau planhigion a addaswyd yn enetig ac adnoddau genetig planhigion; a

(b) 98/96/EC (OJ Rhif L25, 1.2.1999, t.27) o ran archwiliadau maes answyddogol.

Mae'r cyfarwyddebau mewn perthynas â marchnata hadau a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 98/95/EC a Chyfarwyddeb y Cyngor 98/96/EC yn cynnwys Cyfarwyddeb y Cyngor 66/402/EEC (OJ Rhif L125, 11.7.66, t.2309/66) (OJ/SE 1965—66, t.143) ar farchnata hadau grawnfwydydd.

Mae'r Rheoliadau diwygio hyn —

(a) yn diwygio diffiniadau yn rheoliad 3 (o Reoliadau 1993), gan gynnwys y diffiniadau o "marketing" ac "official examination" (rheoliad 3);

(b) yn diwygio rheoliad 5 mewn perthynas â marchnata (gan gynnwys marchnata hadau grawnfwydydd a addaswyd yn enetig) ac awdurdodiadau marchnata, profion a threialon, hadau fel y cânt eu tyfu, gwaith dethol a dibenion gwyddonol eraill; ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliad 4 (rheoliadau 4 a 5);

(c) yn diwygio rheoliad 9 i wneud darpariaeth mewn perthynas â dangos amrywiadau a addaswyd yn enetig yn glir (rheoliad 6);

(ch) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i reoliad 9A (rheoliad 7); a

(d) yn diwygio Atodlen 6 i wneud darpariaeth ar gyfer rhoi gwybodaeth ynghylch hadau sydd wedi'u mewnforio ac i ddiwygio darpariaethau mewn perthynas â phecynnau bach (rheoliad 9).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn peri bod Cyfarwyddeb y Comisiwn 99/8/EC (OJ Rhif L50, 26.2.99, t.26) a Chyfarwyddeb y Comisiwn 99/54/EC (OJ Rhif L142, 5.6.99, t.30) sy'n diwygio Cyfarwyddeb y Cyngor 66/402/EEC (OJ Rhif L125, 11.7.66, t.2309/66) (OJ/SE 1965—66, t.143) ar farchnata hadau grawnfwydydd, yn effeithiol yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1993 i ganiatáu marchnata hadau croesrywiau hunan-beilliol o amrywiadau triticêl fel Hadau Sylfaenol a Hadau a Ardystiwyd (rheoliadau 3 a 4(2)). Maent hefyd yn sefydlu'r amodau sydd i'w bodloni gan y cnydau y ceir yr hadau ohonynt a chan yr hadau eu hunain yn achos y croesryw hwn a chroesrywiau ceirch, barlys, gwenith, gwenith durum a gwenith yr Almaen (rheoliadau 8(2) a (3)).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau 1993 i leihau isafswm y gofyniad egino ar gyfer triticêl o 85 y cant i 80 y cant ac i gyflwyno safonau purdeb ar gyfer samplau Hadau a Ardystiwyd (yn ôl Isafswm y Safon) (rheoliad 8(3)).

Mae Rheoliadau tebyg wedi'u gwneud er mwyn diwygio Rheoliadau 1993 i'r graddau y maent yn gymwys i Loegr ac i'r Alban (gan O.S. 1999/2196 a 2000/1793 ac O.S.A. 2000/248 yn y drefn honno).

Mae Rheoliadau tebyg yn cael eu gwneud mewn perthynas â Chymru ynglŷn â'r canlynol:—

- — hadau betys
- — hadau llysiau
- — tatws hadyd
- — hadau planhigion olew a ffibr
- — hadau planhigion porthiant.

I gael rhagor o wybodaeth am y Rheoliadau hynny, cysylltwch â'r Is-adran Cefn Gwlad, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.